

Annwyl Riant/Ofalwr,

Rydych yn derbyn yr wybodaeth yma er mwyn i chi wybod beth yw'r cymorth sydd ar gael ar gyfer eich plentyn gan eu bod yn derbyn mewnbwn ar gyfer **unrhyw angen dysgu ychwanegol**.

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae Llywodraeth Cymru bellach yn gofyn i rieni gadw eu plant gartref **lle bynnag y bo hynny'n bosibl** er mwyn lleihau lledaeniaid Firws COVID-19.


Hyd nes bod y cyfnod heriol yma yn dod i ben, **fydd y cymorth y maent yn ei dderbyn yn wahanol**. Mae addysg statudol ar gyfnod o saib, gyda gofal yn cael ei gynnig i nifer fechan o blant.

Yn ystod y cyfnod hwn fe fydd y **Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** yn parhau i gefnogi, ond fe fydd y ffordd yr ydym yn gwneud hyn yn gorfol bod yn **wahanol iawn**. Os ydych eisai cyswllt gydag aelod o'r gwasanaeth, dylech drafod gyda'r Ysgol. Yr Ysgol ddylai fod eich cyswllt cyntaf gydag unrhyw ymholiad ar gyfer gwneud yn siŵr fod pawb yn deall ei gilydd. **Gall yr Ysgol gysylltu** gyda'r tîm i wneud trefniadau ar eich rhan.

1. Bydd Ysgol eich plentyn yn **darparu gweithgareddau sydd yn addas** o ran eu hanghenion ychwanegol yn ogystal â'r gweithgareddau addysgol.
2. Fe fydd y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn rhoi **gweithgareddau defnyddiol ac adnoddau** ar y **wefan** ([www.adyach.cymru](http://www.adyach.cymru)) yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr wybodaeth addas ar gyfer ystod o anghenion. Gallwch drafod gyda'r Ysgol os ydych yn ansicr a fyddai gweithgaredd sydd ar y wefan yn **addas ar gyfer eich plentyn chi**.
3. Fe fydd y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn parhau i gynnig **gwasanaeth ymgynghori dros y ffon neu alwad fideo**. Gall yr Ysgol gysylltu gyda'r Gwasanaeth ar gyfer trafod hyn.
4. Os oes gan eich plentyn **Gynllun Datblygu Unigol Fforwm** (ble mae yna Wasanaeth penodol yn cefnogi), fe fydd y Gwasanaeth mewn cyswllt gyda'r Ysgol yn **rheolaidd**. Gall cyswllt fod drwy alwad ffôn neu alwad fideo. Os ydyw eich plentyn yn arferol yn mynchy **canolfan** benodol, fe fydd y Gwasanaeth yn rhoi gweithgareddau defnyddiol y gallwch eu gwneud gyda'ch plentyn i'r Ysgol eu rhannu gyda chwi. Os ydynt yn mynchy canolfan ofal, bydd gweithgareddau yn cael eu cynnig iddynt wneud yno hefyd.
5. Os oes gan eich plentyn **Gynllun Datblygu Unigol Awdurdod neu Ddatganiad** (ac yn cael cymorth ychwanegol awdurdod yn yr ysgol), fe fydd y Gwasanaeth yn adnabod **gweithiwr allweddol** penodol o'r Tîm mwyaf addas er mwyn **cadw cyswllt wythnosol gyda'r Ysgol, a gyda chwi pe byddai angen**. Gall cyswllt fod drwy alwad ffôn neu alwad fideo. Os ydynt yn mynchy canolfan ofal, bydd gweithgareddau yn cael eu cynnig iddynt wneud yno hefyd.

I gloi, hoffwn eich sicrhau y gwnawn unrhyw beth y gallwn i gefnogi ac i gynorthwyo yn ystod cyfnod hwn. Byddwn yn sicrhau ein bod ar gael cymaint â phosib, ac yn defnyddio technoleg i hwyluso pethau.

Rydym yn dymuno'r gorau i chwi,



Ffion Edwards Ellis (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, Gwynedd a Môn)

(01286) 679007 [www.adyach.cymru](http://www.adyach.cymru)

Twitter/Trydar @seicolegol



Dear Parent/Carer,

You are receiving this information so that you know what support is available for your child as they **receive input for an Additional Learning Need**.

As you are aware, the Welsh government is now asking parents to keep their children at home **wherever possible** in order to reduce the spread of the COVID-19 virus.

During these challenging times, the support they receive will be **different, inevitably**. Statutory education is on hold, with care offered to a small number of children.

During this period the **Additional Learning Needs and Inclusion Service** will continue to support schools, but the way we do this will have to be **very different**. If you would like contact with the team, please discuss this with the school first. The school should be your first contact with any query to make sure that we all know what is happening. **The School can contact us to discuss any arrangements with the team.**

1. Your child's school will provide **activities that are suitable** in terms of their additional need as well as the other educational activities provided.
2. The Additional Learning Needs and Inclusion services will provide **useful strategies, activites and resources** on the service **website** ([www.Adyach.cymru](http://www.Adyach.cymru)) during this period. The information will be suitable for a range of needs. You can discuss with the school if you are unsure if any activity that you see would be **suitable for your child**.
3. The Educational Psychology service will continue to offer a **telephone or video-call consultancy service**. The school will be able to contact the service to discuss this.
4. If your child has a **Forum Level Individual Development Plan** (where there a specific service is supporting your child) the service that supports your child will continue to be in contact with the school **regularly**. Contact can be through a phone call or a video call. If your child is usually attends a particular **Centre**, the service will give you useful activities you can do with your child at home via the school. If your child will be attending a Childcare Centre during this periods, the team will provide activites for them to do there.
5. If your child has an **Authority Level Individual Development Plan or a Statement** (so has an authority level additional support in school), the service will identify a **specific key worker** from the team to **maintain weekly contact with the school, and with you if this is needed**. Contact can be through a phone call or a video call. If your child will be attending a Childcare Centre during this periods, the team will provide activites for them to do there.

We would like to reassure that we will do all that is possible to support during this period. We will ensure that we are available as much as possible, and will use technology to assist us.

We wish you all the best,

Ffion Edwards Ellis (Senior Manager, Additional Learning Needs and Inclusion, Gwynedd and Môn)  
(01286) 679007 [www.adyach.cymru](http://www.adyach.cymru)  
Twitter/Trydar @seicolegol